# Clywed Llais y Tenantiaid

## Ydych chi'n gwneud 'Y Pethau Iawn'?

Mewn ymateb i gyhoeddiad adroddiad Bwrdd Rheoleiddio Cymru 'Y Pethau Iawn: Clywed Llais y Tenantiaid' - mae TPAS Cymru wedi datblygu ystod o wasanaethau cefnogi hanfodol i helpu sefydliadau landlordiaid i fodloni negeseuon allweddol yr adroddiad a Safonau Perfformiad Rheoleiddiol.

Gan ddefnyddio ein sgiliau, ein profiad a'n gwybodaeth uniongyrchol am gyfranogiad a rheoleiddio, gallwn weithio gyda staff, tenantiaid ac aelodau bwrdd mewn ffyrdd hyblyg sydd wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion eich sefydliadau.

### Mae enghreifftiau o'n gwasanaethau cefnogi yn cynnwys y canlynol:

- Sesiynau briffio: cyflwyno canfyddiadau'r adroddiad ac ysgogi trafodaethau cychwynnol
- Hwyluso sesiynau adolygu i'ch galluogi i 'hunanwerthuso' eich dull cyfranogiad presennol yn erbyn canfyddiadau'r adroddiad
- Adolygiadau 'pen-bwrdd' o ddiwylliant ac arferion cyfranogiad cyfredol yn erbyn negeseuon yr adroddiad
- Gwerthusiadau Opsiynau o ddulliau cyfranogiad presennol ac arfaethedig
- Y Bobl Iawn – gweithdy hanner diwrnod ar broffilio personoliaeth

### Mae gennym gynnig hyfforddiant cynhwysfawr sy'n ategu canfyddiadau'r adroddiad.

Mae'r themâu yn cynnwys:

- Atebolrwydd a Thryloywder
- Adeiladu Ffydd mewn Landlordiaid Cymdeithasol
- Gwreiddio diwylliant o gyfranogiad
- Nodi deilliannau a dibenion
- Herio a Chraffu gan Denantiaid: archwilio dulliau
- Ymgysylltiad Digidol
- Cyd-gynhyrchu

I wybod mwy am ein cefnogaeth, cysylltwch â ni. Hoffen sgwrsio a thrafod syniadau â chi.

enquiries@tpas.cymru

02920 237303